CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 17eg RHAGFYR 2024.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. W R Parry (Cadeirydd) Cyng. Mrs L Roberts (Is-Gadeirydd) Cyng. Ms N Dafydd, J Evans, Miss B Owen, R G Parry, D T Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. G Jones, J E Lewis.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb

CAEL COFNODION 19eg TACHWEDD 2024 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. R G Parry.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Neuadd Goffa Bodwrog. Wedi gofyn am Fantolen Ariannol i gael rhoi ystyried i gais am rhodd tuag at waith Cynnal a Chadw. Nid oes ymateb gyda Mantolen wedi dod i law.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. HHP/2024/197. Cais llawn i ddymchwel y garej bresennol ynghyd a chodi estyniad ochr a chefn yn:-
   21 Caer Delyn, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng. Mrs L Roberts eilo Cyng. R G Parry.

PENDERFYNIADAU.

2. FPL/2024/197. Cais llawn i ddymchwel yr annedd presennol ynghyd a chodi annedd newydd gyda gwaith cysylltiedig:-
   Cae Mawr, Llandrygarn.
   Caniatad. Derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Dirwy am dorri rheolau cynllunio.
   Cafodd Mr Wayne Anthony Jones o Allt Feirian, Hermon Bodorgan ei erlyn am fethu a chydymffurfio a hysbysiad gorfodi cynllunio a rhoddwyd gan y Cyngor Sir ym Mis Ionawr 2024. Defnyddio Tir Amaethyddol i storio Carafanau a Cherbydau eraill heb ganiatad. Gorchymyn i dalu dirwy dros £1000.
   Yr achos yn ymwneud a newid defnydd o dir Amaethyddol ym Mwthyn Ffynnon, Capel Mawr, Bodorgan. R`oedd y tir Amaethyddol wedi ei ddefnyddio ar gyfer storio carafan sefydlog, carafan deithiol, loriau ceffylau, cychod, unedau storio a cherbydau eraill.
   Mae yn achos o ddatblygiad heb awdurdod mewn Cefn Gwlad agored.
   Ni fydd y Cyngor Sir yn dioddef achosion o dorri rheolau cynllunio a`r natur hwn.

Derbyn y wybodaeth. Dim sylw.

4. Pennaeth Gwasanaeth - Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo - Huw Percy.
   Par: Gorchymyn Traffig Arafaethedig Parc Diwydiannol Mona, Bodffordd ac Ystad Ddiwydiannol Llangefni.
   Rhan gyntaf o broses ymgynghori. Angen derbyn sylwadau ar y cynnig o fewn 5 wythnos.
   Y Cyngor ddim yn erbyn llinellu y Prif Lon ond dim gwneud lle mae busnes bychan.
   Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. R G Parry.

GOHEBIAETH (ARALL)

5. Dweud eich dweud ar gyllid Plismona yng Ngogledd Cymru - Mathew Evans.
   Arolwg yn cau ar 20ed Rhagfyr 2024.
   Pasiwyd i adael.

RHODDION.

6. Dim.

PLWYFOL.

7. Adolygu Cyflog y Clerc. Gadael hyd mis Ionawr 2025 pan fydd y Praesept yn cael ei wneud.

8. Praesept 2025/2026. Amser i`r Cynghorwyr feddwl beth sydd ei angen i rhoi ymateb yn cyfarfod Ionawr 2025.

9. Cynnal a Chadw giatiau y Fynwent Gymunedol (Paentio). Dywedodd Cyng. J Evans nad oedd angen gwneud (Giatiau Galfaneiddio ydynt) Efallai ei golchi nhw.

10. Meinciau Pren yn Bodffordd a Llynfaes angen sylw. Edrych am rhywun i`w paentio.

11. Torri y Fynwent Gymunedol Bodffordd.
    Pris gan Mr Nigel Williams £1000 Ebrill i ddiwedd Hydref 2025 os bydd angen torriad ychwanegol cyn Ebrill ac ar ol Hydref bydd yn £50 y torriad.
    Cynnig Cyng. R R Roberts, eilio Cyng. D T Roberts i dderbyn.

12. Tap Dwr Fynwent Gymunedol Bodffordd. Edrych i`r posibilrwydd o gael tap sydd yn gollwng ychydig o ddwr ar y tro (hanner peint) Cyng. J Evans yn edrych i fewn.
    Dywedodd Mr N Williams sydd yn torri glaswellt yn y fynwent, ac yno ar y pryd, fod Car 4x4 wedi dod at y giat ac wedi llenwi beth bynnag bump jar blastig 5 galwyn hefo dwr o`r tap, a`i cario i`r car. R`oedd yn meddwl fod y Cyngor yn wybodol a bod hawl ganddo i wneud hyn, felly ni wnaeth cymryd rhif y car. (Tarddiad Asiaidd Pacistanaidd)

13. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd. Diolchwyd iddi am ei gwaith da.

MATERION ARIANNOL.

14. Cyfrif Rhedegol. £20,924.90. (TAW £461.34.)
    Mynwent Gymunedol Bodffordd £9,010.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

15. Clerc £470.00. Treth Incwm 3. £352.50. Gweinyddu (3mis) £209.38.

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. N Dafydd eilio Cyng. J Evans.

D Owen (Clerc)